CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad y gyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Wener, 2ail Ionawr, 2026, yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadl o 5.30 y.h. hyd 6.45 y.h.
Presennol: Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Cadeiryddes)
Cynghorwyr Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Carys E. Williams
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Michael Strain, Glenys Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams
Cynghorydd Gareth Williams ((Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

GRANT GAN GWYNEDD NI

Eglurwyd fod y cyfarfod arbennig wedi ei drefnu gan i'r Cyngor gael ar ddeall gan Alys Rees Jones o Gyngor Gwynedd fod gan y Cyngor "dal £1,779.41 yn weddill i wario – ydych chi'n bwriadu gwario y swm yma neu ydych eisiau i mi ei labelu fel tanwariant? Gan fod amser yn brin, gallaf gynnig tan ddiwedd Ionawr i chi wario'r swm sy'n weddill."
Cafwyd rhai syniadau ar beth y gellid eu hystyried fel prosectau i wario'r arian:
Y parc yn Sarn – gosod offer newydd, cael byrddau picnic, plannu blodau a.y. Trafodwyd y rhain a chafwyd ar ddeall fod dau fwrdd picnic wedi cael eu rhoi yn rhodd y llynedd ac fod yna un yn barod. O berthynas i offer gan fod y costau yn uchel a'r Cyngor ddim eisiau cymryd unrhyw gyfrifoldeb ohonynt, felly rhoddwyd hwn o'r neilltu.
Cynnal gweithgareddau i blant yng Nghongl Meinciau – er fod hwn yn brosiect oedd yn cael ei ffafrio gan bawb y teimlad oedd nad oedd mis yn ddigon o amser.
Cael artist proffesiynol gyda chymorth yr Ysgolion i greu murlun – eto roedd hwn yn brosiect fyddai yn ddelfrydol ond gyda'r amser mor brin nid oedd yn gallu bod yn weithredol. Hefyd byddai angen gwybod lle i gael gosod y murlun(iau).
Mainc ym Mynwent y Cyngor yn Llandegwnning – eto hwn yn syniad da ond 'roedd teulu'r Diweddar Emma Morris wedi gofyn yr un cwestiwn ond ni ddaethant yn ôl atom.
'Roedd Mr. Geraint Hughes wedi argymell rhoi mwy o ddrain duon ar y clawdd rhwng y ddwy fynwent.

Trafodwyd y syniadau uchod, ond oherwydd prinder amser, teimlwyd na ellir cyflawni'r mwyafrif ohonynt.

Argymhellwyd felly:

a) Plannu coed mewn gwahanol leoliadau, e.e. dwy ar y Comin Bach ym Mryncroes, dwy ym Mynwent y Cyngor yn Llandegwnning a.y.
b) Fod e-bost yn cael ei anfon at yr aelodau oedd yn absennol ar y noson i ofyn am eu barn hwy am hyn ac a oedd ganddynt leoliad(au) y dylid eu hystyried. Atebiad i'w dderbyn erbyn Nos Sul, 4ydd Ionawr.
c) Anfon yr argymhellion ymlaen i Alys Rees Jones, GwyneddNi er cael cadarnhad y byddai hyn yn disgyn i'r categori am grant.
ch) Yn dilyn atebiad i c) uchod fod Y Cynghorydd Glyn Roberts i wneud ymholiadau gyda Llifon Jones er cael ei farn ar leoliadau i blannu'r coed, y coed fyddai'n ddelfrydol i'r safle, a phris am eu plannu a.y.

Ymhellach adroddodd y Clarc iddi anfon e-bost i'r aelodau ar 14eg Rhagfyr, 2025, fel a ganlyn:

"Yna ddiwrnod ddau ar ol y Cyngor derbyniwyd dau gais cynllunio ac angen ein sylwadau o fewn 21 niwrnod – bydd hyn yn rhy hwyr mae'n siwr i ddisgwyl am y Cyngor nesaf, felly, os y cytunwch ac fod hynny o fewn ein hawliau, a fyddai modd i chwi adael i mi wybod os ydych

yn cefnogi neu wrthwynebu'r ceisiadau a ganlyn – ymateb os gwelwch yn dda erbyn dydd Gwener nesaf gan na fyddaf yn edrych llawer ar y cyfrifiadur wedyn! Diolch.

C25/0890/32/LL - *Cais i adeiladi storfa silwair newydd yn gyfagos i adeiladau presennol*
Parc Bodbadrig, Sarn Mellteyrn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8BQ

C25/0891/32/LL - Cais am storfa dail newydd
Tir Dafydd, Sarn Mellteyrn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8EF"

Adroddodd y Clarc ei bod eisoes wedi derbyn atebiad gan dri aelod oedd yn absennol eu bod yn cefnogi'r ddau gais.
Yn wyneb hyn, penderfynwyd cefnogi'r ddau.

(Nodyn – datganodd Y Cynghorydd Glyn Roberts ddiddordeb yn y ddau gais ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio).